

WcVA Astudiaeth achos, Hydref 2020: **CgGC** Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Anabledd Cymru: Codi lleisiau

Ni ellir tanbriso rôl y sector gwirfoddol mewn hyrwyddo hawliau ac anghenion grwpiau sydd wedi'u heffeithio'n anghymesur gan Covid-19 yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r pandemig yn broblem fyd-eang sydd wedi effeithio ar bob cymuned a chynefin. Ond heb gyfraniad elusennau fel [Anabledd Cymru \(DC\)](#), mae'n anoddach o lawer i gyrff statudol yng Nghymru ddeall ac ymateb yn briodol i hawliau ac anghenion pobl sy'n wynebu risg.

DC yw'r gymdeithas genedlaethol o Fudiadau i Bobl Anabl (DPOs), a'i nod yw diogelu hawliau a chydaddoldeb pobl anabl yng Nghymru a sicrhau y gallant fyw'n annibynnol. Eglura Miranda Evans, Rheolwr Polisi a

Rhaglenni DW: 'Rydyn ni'n hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n golygu mai'r amgylchedd, mudiadau ac agweddau sy'n rhwystro pobl anabl rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas, yn hytrach na'u cyflyrau neu amhariadau meddygol.'

Un o brif elfennau gwaith DW yw ymgynghori, sy'n golygu y gall penderfynwyr allweddol fod yn sicr eu bod yn cael darlun cywir o'r problemau sy'n effeithio mwyaf ar bobl anabl yng Nghymru. 'Er enghraifft', meddai Miranda, 'arolwg DW a lansiwyd ym mis Awst 2020 i gasglu straeon bywyd go iawn er mwyn llunio Maniffesto Pobl Anabl ([#DisabledPeoplesManifesto](#)) mewn pryd ar gyfer etholiadau'r Senedd yn 2021.

'Un problem yw nad yw hawliau dynol



Rydyn ni'n hyrwyddo'r Model Cymdeithasol o Anabledd, sy'n golygu mai'r amgylchedd, mudiadau ac agweddau sy'n rhwystro pobl anabl rhag cymryd rhan lawn mewn cymdeithas, yn hytrach na'u cyflyrau neu amhariadau meddygol.

Miranda Evans

pobl anabl yn cael eu monitro na'u gorfodi'n ddigonol. Mae pobl anabl yn parhau i golli eu hawliau ym mhob agwedd ar fywyd – gofal cymdeithasol; tai; trafnidiaeth ac addysg, ymhlith pethau eraill.'

Mae Covid-19 wedi cyflwyno set o amgylchiadau eithriadol, sy'n golygu bod cydberthnasau dibynadwy a sefydledig DW yn bwysicach nag erioed i helpu Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru, y Senedd ac eraill i ymateb yn briodol i'r argyfwng.

Er enghraifft, ar ddechrau'r pandemig ym mis Mawrth, gallodd yr elusen (ynghyd â mudiadau gwirfoddol eraill) seinio'r rhybudd pan oedd meddygfa deuluol wedi anfon llythyr yn gofyn i gleifion ag anhwylderau sy'n cyfyngu ar eu hoes lenwi ffurflen 'na cheisier dadebru' er mwyn sicrhau na fyddai'r gwasanaethau brys yn cael eu galw pe bai eu cyflwr yn gwaethygu yn sgil Covid-19.

Yn y pen draw, o ganlyniad i'r ymyrraeth hon, cyhoeddodd y bwrdd iechyd ymddiheuriad ar ran y feddygfa.

Yn yr un modd, gallodd DW leisio pryderon ynghylch achosion posibl o dorri hawliau dynol pan oedd gweithwyr gofal yn parhau i gael anhawster cael eu profi, wyth wythnos i mewn i'r cyfyngiadau symud, er eu bod yn gymwys i gael y prawf. Golygai hyn fod rhai pobl anabl yn canslo ymweliadau cymorth am eu bod yn poeni y gallai staff heb eu profi effeithio arnyn nhw.

Drwy gydol yr argyfwng, mae Miranda a DW wedi chwarae rôl annatod mewn gwella bywydau pobl anabl, gan sicrhau fod problemau'n cael eu datrys yn gyflym.

Mae'r dystiolaeth y maen nhw wedi'i chasglu ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, [Ymchwiliad i effaith Covid-19, a'r modd y mae'n cael ei reoli, ar iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru](#), yn enghraifft wych arall o'r gwaith y maen nhw'n ei wneud ar ran eu haelodau.

Yr ymyriadau hyn sy'n gallu gwneud byd o wahaniaeth i fywydau pobl. on behalf of their members.



I ddysgu mwy am waith CGGC ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol, cysylltwch â Sally Rees, Cydlynnydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cenedlaethol y Trydydd Sector, ar:
srees@wcva.cymru

Am fwy o wybodaeth am wasanaethau Anabledd Cymru ewch i:
www.disabilitywales.org

0300 111 0124
wcva.cymru

Cyhoeddwyd Hydref 2020
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Rhif cofrestru'r elusen 218093
Cwmni cyfyngedig drwy warrant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru